# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion drafft (CC(3)-16-09)

**Dyddiad: 4 Tachwedd 2009**
**Amser: 09.31 – 10.46**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Dr Alison Stroud, Swyddog Polisi Cymru, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Jackie Freer, Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol (Fforensig), Canolfan Brian Oliver

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

1.3 Nododd y Cadeirydd y byddai’r adroddiad ar y diwydiant papurau newydd yng Nghymru a baratowyd gan yr Is-bwyllgor Darlledu, sydd eisoes wedi ei ddiddymu, yn cael ei drafod yn ystod y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw. Nododd hefyd y byddai adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru ar lwyfan y byd yn cael ei drafod yr wythnos nesaf.

### 2: Ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid – Tystiolaeth gan Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd

### 2.1.Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

2.2Diolchodd y Cadeirydd i’r tystion am ddod i’r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ymlaen llaw.

### Sesiwn Breifat

### 3: Ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid - ystyried materion sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i ymweliadau’r Aelodau â’r ystâd ddiogeledd

3.1 Yn unol â Reol Sefydlog 10.37, cytunodd y Pwyllgor i ystyried yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

3.2 Diolchodd y Pwyllgor i’r Ysgrifenyddiaeth am drefnu’r ymweliadau.

3.2 Trafododd y Pwyllgor y papur a’r themâu a ddaeth i’r amlwg.

3.3 Cytunwyd y dylid canslo’r cyfarfod ar 18 Tachwedd. Cytunwyd hefyd y byddai’r Clerc yn dosbarthu’r papur yn cynnwys y themâu a ddaeth i’r amlwg y tu allan i’r Pwyllgor er mwyn cael sylwadau gan Aelodau.

### 4: Ymchwiliad i wneud y gorau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru – cylch gorchwyl

4.1 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl a’r alwad am dystiolaeth.

4.2 Cytunodd y Clerc i ddosbarthu’r cylch gorchwyl diwygiedig a’r alwad am dystiolaeth i’r Aelodau.

4.3 Nododd y Cadeirydd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**